 - mae “*Clirffordd Arosfan Bws*” yn golygu unrhyw ran o'r Gerbydlon a fwriadwyd ar gyfer bysiau sy'n aros, sydd wedi ei chynnwys ac a ddangosir gan farciau ffordd sy'n cydymffurfio gyda diagram 1025.1, .3 a .4 yn Atodlen 6 ag arwydd sy'n cydymffurfio gyda diagram 974 yn Atodlen 5 i Reoliadau 2002;

mae "*Cerbydlon*" yn golygu ffordd sy'n briffordd neu wedi ei chynnwys yn rhan ohoni (heblaw am drac beic) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy i gerbydau deithio;

mae i "*Cerbyd Person Anabl*" yr un ystyrion ac sydd yn y Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000;

mae "*Bathodyn Person Anabl*" a "*Disg Parcio*" yn golygu'r bathodyn a'r disg a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 neu yn fathodyn sy'n gweithredu o dan y rheoliadau yma fel pe byddai'n Fathodyn Person Anabl;

golyga "*Gyrrwr*", mewn perthynas â cherbyd sy'n aros mewn lle parcio neu ar ffordd neu ddarn o ffordd, y person oedd yn gyrru'r cerbyd ar yr adeg y cafodd ei adael yn y Man Parcio hwnnw neu'r ffordd neu ran o'r ffordd;

mae "*Deddfiad*" yn golygu unrhyw ddeddfiad, boed yn gyhoeddus cyffredinol neu yn lleol, ac mae'n cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu unrhyw offeryn arall sydd mewn grym drwy rinwedd Deddfiad a bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw Ddeddfiad yn cael ei ystyried fel cyfeiriad at y Deddfiad hwnnw fel y newidiwyd, defnyddiwyd, cydgrynhowyd, ail-ddeddfwyd neu sydd mewn grym drwy rinwedd unrhyw Ddeddfiad dilynol;

mae "*Nwyddau*" yn golygu nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad ac yn cynnwys pecynnau post o unrhyw fath;

mae "*Cerbyd Nwyddau*" yn golygu cerbyd modur sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i gludo Nwyddau ac nad yw yn ddim mwy na 5.30 metr o hyd neu 2.25 metr o uchder;

mae "*Cerbyd Hacni*" yn golygu cerbyd a drwyddedwyd o dan Adran 38 o'r Ddeddf Cerbydau (Ecséis), 1971;

mae "*Llwytho*" yn cynnwys Llwytho neu Ddadlwytho Nwyddau i neu o gerbyd;

mae gan "*Feic Modur*" a "*Cerbyd yr Anabl*" yr un ystyrion ag yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

mae gan "*Cerbyd Modur*" yr un ystyr a'r hyn sydd yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

golyga "*Perchennog*", mewn perthynas â'r cerbyd yr unigolyn sy'n cadw'r cerbyd. Wrth benderfynu pwy oedd Perchennog y cerbyd ar unrhyw adeg fe ragdybir mai'r Perchennog yw'r unigolyn y cafodd y cerbyd ei gofrestru yn ei enw ar y pryd o dan y Ddeddf Ecséis Cerbydau a Chofrestru 1994;

mae "*Man Parcio*" yn golygu unrhyw Fan Parcio a ddangosir ar Gerbydlon gan farciau yn unol â Rheoliadau 2002, ar ffordd a ddynodwyd gan orchymyn a wnaed neu sydd a'r effaith fel pe tai wedi ei wneud o dan Ddeddf 1984;

mae “*Cerdyn Parcio*” yn golygu Cerdyn Parcio gyflwynwyd o dan ddarpariaethau’r Gorchymyn hwn;

golyga “*Deilydd Cerdyn Parcio*” unigolyn y cyflwynwyd y Cerdyn Parcio iddo o dan ddarpariaethau’r Gorchymyn hwn;

mae “*Oriau a Ganiateir*” yn golygu’r oriau a nodwyd ar y cynlluniau sy’n atodol i’r Gorchymyn hwn;

mae “*Safle Perthnasol*” o safbwynt: -

- (a) Bathodyn Person Anabl, yn golygu
 - (i) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod rhan 1 o’r bathodyn yn glir o du allan i’r cerbyd; neu
 - (ii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod rhan 1 o’r bathodyn yn glir o du allan i’r cerbyd;
- (b) mae Disg Parcio Person Anabl, yn golygu bod yr ochr sy’n dangos y chwarter awr pan ddechreuodd yr amser aros i’w weld yn glir o du allan i’r cerbyd;
- (c) mae Cerdyn Parcio Preswlydd a Thystysgrif Hepgor, yn golygu
 - (i) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y Cerdyn Parcio yn cael ei arddangos arno fel bod rhan o’r Cerdyn i’w weld yn glir o du allan i’r cerbyd; neu
 - (ii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y Cerdyn Parcio yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod y Cerdyn i’w weld yn glir o du allan i’r cerbyd;

mae “*Preswlydd*” yn golygu person sydd â’i gartref arferol yn eiddo lle mae’r cyfeiriad post ar ffordd neu ar ran o ffordd a nodwyd fel parth parcio i Breswylwyr ar y cynlluniau sy’n atodol i’r Gorchymyn hwn;

mae “*Safle Penodol*” yn golygu cerbyd a adawyd mewn Man Parcio yn ystod yr Oriau a Ganiateir yn unol â darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn sy’n achosi iddo sefyll:-

- (a) yn achos y Man Parcio mewn perthynas â lle bo darpariaethau arbennig ynglŷn â’r modd mae cerbyd yn sefyll yn y lle hwnnw wedi eu pennu yn y cynlluniau sy’n atodol i’r Gorchymyn hwn fe fyddant yn unol â’r darpariaethau hynny;
- (b) yn achos unrhyw Fan Parcio arall -
 - (i) os nad yw’r Man Parcio ar stryd unffordd, fod yr ochr chwith neu ochr agosaf y cerbyd ger ochr chwith y Gerbydlon;

- (ii) bod y pellter rhwng ochr y Gerbydlon ag olwyn agosaf y cerbyd ddim mwy na 300 milimetr;
- (c) fel bod pob rhan o'r cerbyd o fewn cyfyngiadau'r Man Parcio;
- (d) nad oes unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw fodd cerbydol o fynediad i mewn neu allan o unrhyw eiddo ger ochr y ffordd lle mae'r cerbyd yn aros.

mae "*Rheng Dacsi*" yn golygu ardal o'r Gerbydlon sydd wedi ei chynnwys o fewn ac wedi ei dangos gan farciau ffordd sy'n cydymffurfio gyda diagram 1028.2 yn Atodlen 6 o Reoliadau 2002;

golyga "*Oriau Penodol*" yr oriau a nodwyd ar gyfer manau parcio neu ddadlwytho ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn;

mae gan "*System Telathrebu*" yr un ystyr a'r hyn sydd yn Neddf Telathrebu 1984;

mae "*Rheoliadau 2002*" yn golygu'r Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2002;

mae "*Deddf 1984*" yn golygu Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984;

mae "*Arwydd Traffig*" yn golygu arwydd o unrhyw faint, lliw a math a bennwyd neu a awdurdodwyd yn unol â neu a'r effaith fel pe byddai wedi ei bennu neu ei awdurdodi yn unol ag Adran 64 o Ddeddf 1984.

mae "*Tystysgrif Hepgor*" yn golygu tystysgrif a gyflwynwyd yn briodol ar ran y Cyngor i ddibenion Erthygl 25 sy'n caniatáu i gerbyd penodol i aros mewn amgylchiadau penodol ar ddarn neu ddarnau o ffordd lle y byddai'r aros i'r cerbyd hwnnw fel arall yn cael ei wahardd;

3. Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen rifedig yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sydd a'r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.
4. Bydd y gwaharddiadau a osodwyd gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol i ac nid yn amharu ar unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau neu Orchymynion a wnaed neu fel pe byddent wedi eu gwneud o dan Ddeddf 1984, neu gan neu o dan unrhyw Ddeddfiad arall.
5. Oddieithr lle fo'r gwrthwyneb yn cael ei nodi, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn i:
 - (a) y Gorchymyn hwn neu Orchymyn arall yn cael eu dehongli fel cyfeiriad i'r Gorchymyn hwn neu, fel bo'n berthnasol, orchymyn arall, gan y gall fod hwn wedi neu y bydd o bryd

i'w gilydd yn cael eu newid, amrywio neu ychwanegu atynt;

- (b) Statud neu Reoliad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at Statud neu Reoliadau o'r fath gan y gall eu bod wedi neu y byddant o bryd i'w gilydd yn cael eu newid neu eu hail-ddeddfu.

6. Mae Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol ac fel pe byddai ar gyfer dibenion Adran 21 o'r Ddeddf honno fod y Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol, a phe byddai'r Gorchymynion a ddiddymwyd gan Erthygl 41 yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd trwy hynny.

RHAN II

GWAHARDD A CHYFYNGU AROS

7. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthyglau 8 i 12 o'r Gorchymyn hwn nid fydd unrhyw unigolyn, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl o'r heddlu yn ei wisg neu warden traffig, yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd i aros ar y ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd a nodwyd (ac eithrio'r Cefnffyrdd nad yw'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddynt, ond a ddangosir fel canllaw yn unig) ac am y cyfnodau a nodwyd (neu yn achos ffordd neu ochr y ffordd lle fo aros cyfyngedig yn cael ei Ganiatáu, heblaw yn ystod y cyfnod a nodwyd) ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu i Ganiatáu i unrhyw gerbyd i aros cyn belled â'i fod yn angenrheidiol i'r diben i alluogi Nwyddau i gael eu llwytho neu eu dadlwytho o'r cerbydau ar y ffyrdd a nodwyd ac am y cyfnodau a nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn:

AR YR AMOD oni bai fod hysbysiad yn cael ei roi pedair awr ar hugain ymlaen llaw i'r Cyngor a bod Tystysgrif Hepgor wedi ei derbyn, ni fydd unrhyw gerbyd yn aros ar unrhyw ffordd neu ochr y ffordd lle fo Llwytho wedi ei gyfyngu yn ystod y cyfnodau cyfyngu fel y nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn:

9. (1) Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd i aros ar unrhyw un o'r ffyrdd, ddarn o'r ffordd neu ar ochrau'r ffordd a nodir yno cyn belled a bo hi'n angenrheidiol i alluogi:

- (a) unigolyn i fynd i gerbyd neu ddod oddi arno:
 - (b) fel y gellir defnyddio'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn, sef:-
 - (i) gwaith adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
 - (ii) cael gwared ag unrhyw rwystr i drafnidiaeth;
 - (iii) cynnal, gwella neu ailadeiladu'r ochrau darnau ffyrdd uchod; a
 - (iv) gosod, codi, newid neu atgyweirio ar dir yn ymyl yr ochrau darnau ffyrdd unrhyw garthffos neu brif bibell, pibell neu offer i gyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw lein cyfarpar telathrebu fel a ddiffinnir yn Neddf Telathrebu 1984;
 - (c) fel y gellir defnyddio'r cerbyd yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu ymgwymerwr dŵr, ymgwymerwr carthffosiaeth neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â hawliau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall;
 - (d) cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel a ddiffinir yn adran 4(3) a (4) o Ddeddf y Gwasanaethau Post 2000) i'w defnyddio i'r diben o ddsbarthu a/neu gasglu'r post;
 - (e) fel y gellir rhoi petrol, olew dŵr neu aer yn y cerbyd o unrhyw garej a leolir ar neu ger y darnau ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd uchod;
 - (f) i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio i ddibenion y frigâd dân, Ambiwlans neu'r heddlu;
 - (g) mewn unrhyw achos lle fo'r person sy'n rheoli'r cerbyd,
 - (i) angen iddo stopio gan y gyfraith;
 - (ii) yn orfodol iddo stopio i osgoi damwain, neu
 - (iii) ei fod yn cael ei atal rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth;
 - (h) os yw'r cerbyd yn arddangos yn y Safle Perthnasol Dystysgrif Hepgor ddilys ac yn aros yn unol â'r telerau a'r amodau a nodir gan y Dystysgrif ddywededig.
- (2) Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu Ganiatáu i unrhyw gerbyd

- (a) i aros ar le parcio awdurdodedig; neu
- (b) os yw'n dacsî, aros ar reng dacsîs swyddogol.

10. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol, Fathodyn Person Anabl a Disg Parcio, lle mae'r gyrrwr, neu berson arall â chyfrifoldeb dros y cerbyd wedi nodi amser cychwyn y cyfnod aros, i aros ar ochrau neu ddarnau o'r ffyrdd y cyfeirir atynt yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn am gyfnod heb fod yn fwy na thair awr (nad yw'n gyfnod wedi'i wahanu gan egwyl o lai nag awr oddi wrth gyfnod aros blaenorol gan yr un cerbyd ar yr un ochrau darnau ffyrdd neu ar yr un ochr ar yr un diwrnod):

AR YR AMOD o safbwynt y ffyrdd a nodir yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn pan fo Llwytho yn cael ei ganiatáu ar bob amser neu wedi ei gyfyngu i amseroedd penodol bydd y cyfnod hwn i gyd o fewn y cyfnod y caniateir Llwytho.

11. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n arddangos yn y safle perthnasol Fathodyn Person Anabl i aros ar ochr y ffyrdd a nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn lle fo aros wedi ei gyfyngu yn cael ei ganiatáu:

AR YR AMOD os yw defnydd y Man Parcio wedi ei gyfyngu i ddsbarth penodol o gerbyd bod y cerbyd sy'n arddangos y Bathodyn Person Anabl hefyd o'r dosbarth a nodwyd.

12. Ni fydd dim yn Erthygl 7 i'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i Yrrwr Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus i achosi i'r cerbyd hwnnw i aros ar Arosfan Bws gydnabyddedig.

RHAN III

AWDURDODI A DEFNYDDIO MANNAU PARCIO AR Y STRYD

13. (1) Awdurdodir defnyddio'r rhannau o'r ffyrdd a nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn, yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn isod, fel Mannau Parcio i'r dosbarthiadau hynny o gerbydau, mewn safleoedd o'r fath ac ar y dyddiau hynny ac yn ystod yr oriau a nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn.

(2) Ni fydd dim ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon yn cyfyngu pŵer y Cyngor neu gwnstabl o'r heddlu yn ei wisg, i atal rhwystr ar y strydoedd, drwy orchymyn ar adeg pan fo unrhyw

ymdaith gyhoeddus, gorfoledd neu oleuadau, neu lle fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro, i gau unrhyw Fan Parcio.

- (3) Ni fydd dim ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon yn cyfyngu pŵer y Cyngor neu unigolyn a ddynodwyd gan y Cyngor i atal defnyddio Mannau Parcio a Ganiateir ar ddarn o ffordd neu unrhyw ran ohoni pan fo ef/hi yn ystyried fod ataliad o'r fath yn rhesymol angenrheidiol.

14. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 ac a nodwyd yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn mae Man Parcio yn cael ei ddisgrifio fel bod ar gael i gerbydau o ddsbarth penodol neu mewn Safle Penodol, ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros yn y Man Parcio hwnnw -

- (a) oni bai ei fod o ddsbarth penodol; neu
- (b) mewn lleoliad arall i'r hyn a nodwyd.

15. (1) Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 o'r Gorchymyn hwn, ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros mewn Man Parcio am fwy na'r uchafswm cyfnod a ganiateir i aros a nodir mewn perthynas â'r Man Parcio hwnnw fel a nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn.

- (2) Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 o'r Gorchymyn hwn, pan fo cerbyd wedi gadael Man Parcio ar ôl aros yno ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros eto ar y Man Parcio hwnnw yn ystod y cyfnod amser ar ôl iddo adael a nodir i'r Man Parcio hwnnw sydd yn y cynlluniau i'r Gorchymyn hwn.

16. Ni fydd Gyrrwr cerbyd yn defnyddio Man Parcio -

- (a) fel ag yn afresymol i atal mynediad i unrhyw eiddo sydd ger y ffordd, neu ddefnydd y ffordd gan unrhyw berson arall, neu fel ag i fod yn niwsans;
- (b) wrth atal rhwystro'r strydoedd bydd y Cyngor drwy Orchymyn a wnaed ar achlysur unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoledd neu oleuadau, neu lle fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro yn cau'r Man Parcio gan arddangos hysbysiad o'r cau ar neu ger y Man Parcio.

17. Bydd Gyrrwr Cerbyd Modur sy'n defnyddio Man Parcio yn diffodd y peiriant cyn gynted ag y bo'r cerbyd yn ei le yn y man parcio, a ni fydd yn tanio'r peiriant ac eithrio i symud y cerbyd neu i adael y Man Parcio.
18. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 o'r Gorchymyn hwn ni fydd unrhyw berson yn defnyddio cerbyd, tra bydd mewn Man Parcio, mewn cysylltiad â gwerthu neu hurio ei arbenigedd neu wasanaethau.
19. Ni fydd unrhyw berson yn defnyddio cerbyd tra bydd mewn Man Parcio mewn cysylltiad â chynnal a chadw a thrwsio'r cerbyd ac eithrio os yw'r cerbyd wedi torri i lawr i alluogi'r cerbyd i gael ei symud o'r Man Parcio.
20. Bydd cerbyd a ddefnyddir i gludo person anabl sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl a Disg Parcio a adewir mewn Man Parcio yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn eithriedig rhag unrhyw gyfyngiad ar amser:
AR YR AMOD fod defnydd y Man Parcio wedi ei gyfyngu i ddsbarth penodol o gerbyd a bod y cerbyd sy'n arddangos Bathodyn Person Anabl hefyd o'r dosbarth a bennwyd.
21. Yn ddarostyngedig i'r profiso sydd yma, pan fo cerbyd yn cael ei adael mewn Man Parcio yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau sydd yn Erthyglau 14, 15 neu 16 o'r Gorchymyn hwn bydd person a awdurdoddir ar ran y Cyngor yn gallu symud y cerbyd neu drefnu iddo gael ei symud ymaith o'r Man Parcio.
AR YR AMOD pan fo cerbyd yn aros mewn Man Parcio yn groes i ddarpariaeth Erthygl 14(b) o'r Gorchymyn hwn, gall person a awdurdoddir ar ran y Cyngor newid neu achosi i newid safle'r cerbyd er mwyn i'w leoliad gydymffurfio gyda'r ddarpariaeth honno.
22. Bydd unrhyw berson sy'n symud cerbyd neu yn newid ei leoliad drwy rinwedd yr Erthygl flaenorol olaf o'r Gorchymyn hwn wneud hynny drwy lusgo neu yrru'r cerbyd neu mewn modd arall yr ystyria sydd ei angen a gall gymryd mesurau o'r fath mewn perthynas â'r cerbyd ag y creda sy'n angenrheidiol i'w alluogi i'w symud neu newid ei leoliad fel bo'r achos.
23. Pan fo unigolyn a awdurdodwyd gan y Cyngor yn symud neu yn gwneud trefniadau i symud cerbyd ymaith o Fan Parcio drwy rinwedd Erthygl 21 o'r Gorchymyn hwn, bydd ef/hi yn gwneud y trefniadau sydd yn rhesymol angenrheidiol i ddal y cerbyd yn ddiogel.

24. Ni fydd y darpariaethau sydd yn Erthygl 14, 15 a 18 o'r Gorchymyn hwn a'r cyfyngiadau a osodwyd gan Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw Gerbyd Hacni wrth aros mewn Rheng Dacsi.
25. Serch darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn, gall y Cyngor yn ôl ei ddisgresiwn gyflwyno Tystysgrif Hepgor i ganiatáu i gerbyd penodol aros ar ffordd neu mewn Man Parcio yn ystod oriau gweithredu unrhyw gyfyngiadau neu waharddiad i'r gwrthwyneb.
26. Gellir canslo Tystysgrif Hepgor ar unrhyw adeg ar ddisgresiwn y Cyngor yn unig a bydd wedyn yn peidio â bod yn ddilys ar unwaith.
27. Bydd hysbysiad o ganslo o'r fath yn cael ei anfon drwy'r post i ddeilydd y dystysgrif i unrhyw gyfeiriad, y cred y Cyngor yw cyfeiriad yr unigolyn hwnnw, a bydd y dystysgrif yn cael ei ildio ar unwaith i'r Cyngor.

RHAN IV

CARDIAU PARCIO

28. (1) Bydd unrhyw Breswilydd sy'n byw mewn parth parcio i Drigolion a nodir ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn ac sy'n Berchennog cerbyd o'r dosbarth a ganlyn, sef Cerbyd Modur, Cerbyd Nwyddau a Cherbyd Anabl neu Feic Modur,
 - (a) yn gallu gwneud cais i'r Cyngor neu Asiant a Awdurdodwyd am Gerdyn Parcio i barcio'r cerbyd hwnnw mewn Man Parcio a nodwyd ym mharagraff (6) o'r Erthygl hon a bydd cais o'r fath ar ffurflen a gyflwynir gan ac y gellir ei chael gan y Cyngor neu Asiant a Awdurdodwyd a bydd yn cynnwys y manylion a'r wybodaeth sydd ei hangen gan ffurflen o'r fath a gyflwynir a'r ffi a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn. Bydd Preswilydd/ymgeisydd sy'n meddu ar Fathodyn Person Anabl yn eithriedig rhag talu'r ffi a bennwyd yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.
 - (b) ac sydd yn flaenorol yn unol â'r telerau yn (a) uchod wedi prynu Cerdyn Parcio, gall os oes lle yn caniatáu, fel y penderfynir gan y Cyngor, wneud cais am ail

Gerdyn Parcio i barcio Cerbyd Modur yn y Mannau Parcio a nodir ym mharagraff (6) o'r Erthygl hon a bydd unrhyw gais o'r fath ar ffurflen a gyflwynwyd gan ac sydd ar gael gan y Cyngor o swyddfa benodol a bydd yn cynnwys y manylion a'r wybodaeth sydd ei hangen gan ffurflen o'r fath ynghyd â'r ffi a bennwyd yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

- (c) yn gallu gwneud cais i'r Cyngor yn ei swyddfa ddynodedig i gyflwyno Cerdyn Parcio Arbennig i Ymwelwyr i barcio Cerbyd Modur yn y Mannau Parcio a nodir ym mharagraff (6) o'r Erthygl hon. Mae'r penderfyniad i gyflwyno Cerdyn Parcio Arbennig i Ymwelwyr yn ôl disgrisiwn y Cyngor neu ei swyddog dynodedig. Yn amodol i fodlondeb y Cyngor neu ei swyddog dynodedig cyflwynir Cerdyn Parcio Arbennig i Ymwelwyr i barcio unrhyw gerbyd modur yn y Mannau Parcio sydd yn y stryd fel a nodir yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn wedi talu'r ffi benodol a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;
 - (d) yn gallu gwneud cais i'r Cyngor am gyflwyno Cerdyn Parcio Ymwelwyr Trigolion i barcio Cerbyd Modur mewn Mannau Parcio a bennir ym mharagraff (6) o'r Erthygl hon a bydd ceisiadau o'r fath yn cael ei gwneud ar ffurflen sydd ar gael o swyddfa benodedig y Cyngor a bydd yn cynnwys manylion a gwybodaeth o'r fath sydd ei hangen gan ffurflen o'r fath a ddarperir ynghyd â'r ffi a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn am y math o Gerdyn Parcio Ymwelwyr Trigolion sydd ei angen.
- (2) Gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgrisiwn, gyflwyno Cerdyn Parcio Arbennig i Ymwelwyr i unigolion sy'n rhan o broffesiwn meddygol neu ofalu, ar ôl talu'r ffi benodol.
 - (3) Gall Perchennog unrhyw sefydliad llety i ymwelwyr a leolir mewn parth parcio i Drigolion a nodir yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn wneud cais i'r Cyngor i gyflwyno Cardiau Parcio Llety Ymwelwyr i ddefnydd gwesteion sy'n aros yn y sefydliad hwnnw yn unig. Bydd cais o'r fath yn cael ei wneud ar ffurflen sydd ar gael o swyddfa benodedig y Cyngor a bydd yn cynnwys y manylion a'r wybodaeth sydd ei hangen gan ffurflen o'r fath a gyflenwir ynghyd â'r ffi benodol yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn am y math o Gerdyn Parcio sydd ei angen.
 - (4) Gall y Cyngor neu Asiant Awdurdodedig ar unrhyw adeg ofyn i ymgeisydd neu ddeilydd

Cerdyn Parcio ddangos i swyddog o'r Cyngor neu Asiant Awdurdodedig dystiolaeth o'r fath o safbwynt cais am Gerdyn Parcio fel sy'n rhesymol ofynnol ei angen i wirio manylion neu wybodaeth a roddwyd iddynt neu i wirio fod y Cerdyn Parcio hwnnw yn ddilys.

- (5) Bydd y Cyngor neu'r Asiant Awdurdodedig ar ôl iddo gael ei fodloni fod yr ymgeisydd yn Breswylydd sy'n Berchennog cerbyd o'r dosbarth a nodwyd ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon, yn cyflwyno i'r ymgeisydd un Cerdyn Parcio i un Preswylydd, Ymwelydd Arbennig. Ymwelydd Trigolion neu Gerdyn Parcio Llety Ymwelwyr fel bo'n briodol i roi cerbyd yn ystod yr oriau a ganiateir mewn Man Parcio y mae Cerdyn Parcio yn berthnasol iddo, gan y Perchennog neu unrhyw berson sy'n defnyddio cerbyd o'r fath gyda chaniatâd y Perchennog (heblaw am berson y math cerbyd sy'n cael ei osod i'w logi a derbyn tâl).
- (6) Bydd Cerdyn Parcio ond yn ddilys i'w ddefnyddio mewn Man Parcio fel a nodir arno ar ffordd a nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn.

29. Bob amser yn ystod yr adeg bydd y Cerbyd Modur yn aros (heblaw am Gerbyd Modur sydd fel arall wedi ei eithrio gan y Gorchymyn hwn) mewn Man Parcio i ddosbarth cerbyd o'r fath fel a nodir yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn, bydd Cerdyn Parcio dilys yn cael ei arddangos yn y Safle Perthnasol.
30. Bydd Cerdyn Parcio yn ddilys yn unig i'r cerbyd y cafodd ei gyflwyno ar ei gyfer ac ni fydd unrhyw ddeilydd Cerdyn Parcio yn achosi neu yn caniatáu i unrhyw Gerdyn Parcio a gyflwynwyd iddo gan y Cyngor gael ei arddangos ar unrhyw gerbyd sydd â rhif cofrestru gwahanol i'r hynny a ddangosir ar y Cerdyn Parcio.
31. Bydd Cerdyn Parcio yn peidio â bod yn ddilys pe digwydd unrhyw un o'r digwyddiadau a nodir isod :
 - (a) bod deilydd y Cerdyn Parcio yn peidio bod yn Breswylydd, yn achos Cerdyn Parcio Cyntaf neu Ail Gerdyn Parcio'r Preswylydd;
 - (b) bod deilydd y Cerdyn Parcio yn peidio bod yn Berchennog y Cerbyd Modur o safbwynt yr hwn y cyflwynwyd y Cerdyn Parcio;
 - (c) bod Cerdyn Parcio o'r fath yn cael ei ganslo gan y Cyngor o dan ddarpariaethau Erthyglau 33 a 34 i'r Gorchymyn hwn;

- (d) cyflwyno Cerdyn Parcio dyblyg gan y Cyngor o dan ddarpariaethau Erthygl 34;
- (e) bod y cyfnod y cyflwynwyd y Cerdyn Parcio ar ei gyfer wedi dod i ben;
- (f) bod deilydd Cerdyn Parcio Arbennig i Ymwelwyr a gyflwynwyd o dan ddarpariaethau Erthygl 28(1)(c) a 28(2) i'r Gorchymyn hwn bellach ddim yn cael ei gyflogi mewn proffesiwn y cyflwynwyd y Cerdyn Parcio dywededig ar ei gyfer, ac nad ydyw bellach angen parcio Cerbyd Modur yn unol â gwaith y proffesiwn hwnnw yn y modd y cyflwynwyd y Cerdyn Parcio ar ei gyfer;
- (g) bod y Cerbyd Modur y cyflwynwyd Cerdyn Parcio iddo wedi cael ei addasu neu ei ddefnyddio yn y fath fodd fel nad yw'n Gerbyd Modur o'r dosbarth a nodwyd yn y Gorchymyn hwn;
- (h) lle fo Cerdyn Parcio wedi ei gyflwyno i unrhyw berson ar ôl derbyn siec neu gerdyn credyd a bod y taliad wedyn yn gwrthod cael ei dalu, bydd y Cerdyn Parcio yn peidio â bod yn weithredol o'r dyddiad cyflwyno a bydd y Cyngor yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r person y cyflwynwyd y Cerdyn Parcio iddo drwy fodd gwasanaeth anfon cofnodedig neu drwy anfon yr hysbysiad i gyfeiriad olaf gwybyddus yr unigolyn yn gofyn i'r person ildio'r Cerdyn Parcio i'r Cyngor cyn pen 48 awr o dderbyn yr hysbysiad hwnnw.

32. Bydd Cerdyn Parcio yn ysgrifenedig ac yn cynnwys y manylion a ganlyn:-

- (a) marc cofrestru'r cerbyd y cyflwynwyd y Cerdyn Parcio ar ei gyfer;
- (b) y cyfnod pan fydd y Cerdyn Parcio yn parhau'n ddilys;
- (c) dilysiad fod y Cerdyn Parcio wedi ei gyflwyno gan y Cyngor;
- (d) y parth lle mae'r Cerdyn Parcio yn ddilys ynddo.

33. Gall y Cyngor ar ei ddisgresiwn ei hun yn hollol, ganslo Cerdyn Parcio a hysbysu deilydd y Cerdyn Parcio yn y cyfeiriad a ddangosir gan yr unigolyn hwnnw ar y cais am Gerdyn Parcio neu mewn unrhyw gyfeiriad arall y credir sydd yn fan byw i'r person hwnnw, a bydd deilydd y Cerdyn Parcio yn ildio'r Cerdyn Parcio cyn pen 2 ddiwrnod gwaith o dderbyn yr Hysbysiad a nodwyd yn flaenorol.

34. Bydd Cerdyn Parcio Cyntaf Preswylwyr, Ail Gerdyn Preswylwyr neu Gerdyn Arbennig Ymwelwyr sydd -

- (a) ar goll, wedi ei niweidio, wedi gwisgo neu wedi ei ddwyn yn cael ei newid gan y Cyngor wedi derbyn y ffi benodedig a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;
- (b) yn peidio â bod yn ddilys yn unol ag Erthygl 31(b) i'r Gorchymyn hwn ac yn cael ei newid gan y Cyngor, bydd y cerdyn parcio yn ei le yn cael ei gyflwyno am Gerbyd Modur gwahanol sy'n eiddo i ddeilydd y Cerdyn Parcio, ar ôl derbyn y ffi benodedig a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

Bydd y Cerdyn Parcio y cyflwynir Cerdyn Parcio arall yn ei le o dan ddarpariaethau'r cymal yma yn cael ei ganslo a bydd y Cerdyn Parcio yn ei le a'r un dyddiad terfynu a'r Cerdyn Parcio, sydd wedi ei ganslo. Oni bai fod y Cerdyn Parcio yn cael ei golli neu ei ddwyn, dylid ei ildio i'r Cyngor cyn fo Cerdyn Parcio yn cael ei roi yn ei le.

- 35. Ni fydd Cerdyn Parcio Ymwelwyr Trigolion, neu Gerdyn Parcio Llety Ymwelwyr, sydd heb ei ddefnyddio, wedi ei golli, wedi ei ddifetha, wedi ei wisgo neu wedi ei ddwyn yn cael ei newid ac ni fydd yn gymwys i dderbyn ad-daliad o unrhyw arian dalwyd o safbwynt prynu'r Cerdyn Parcio hwnnw.
- 36. Bydd holl ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gerdyn Parcio dyblyg i'r un graddau ag y maent yn gymwys i'r Cerdyn Parcio gwreiddiol.
- 37. Pan fo Cerdyn Parcio wedi cael ei arddangos yn unol â darpariaethau Erthygl 29, ni fydd unrhyw berson heblaw am Gwnstabl o'r Heddlu yn ei wisg, neu Gynorthwydd Parcio yn tynnu Cerdyn Parcio o'r fath neu hysbysiad o'r cerbyd oni bai iddo gael ei awdurdodi i wneud hynny gan Yrrwr y cerbyd hwnnw.

RHAN V

MANNAU PARCIO WEDI EU DYNODI I GERBYDAU POBL ANABL

- 38. (1) Gellir defnyddio'r rhannau hynny o dir sydd wedi eu nodi yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn ac sydd wedi eu dynodi yno "Deilwyr Bathodynau Anabl yn Unig", yn amodol i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, fel 'Mannau Parcio i bobl anabl' yn y lleoliadau hyn, yn ystod cyfnodau o'r fath ac am yr oriau hynny a nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn.
- (2) Lle fo mewn Man Parcio arwydd neu farc ar yr wyneb sy'n dangos fod llain parcio ar gael

yn unig i Gerbyd Person Anabl, ni fydd Gyrrwr cerbyd yn caniatáu iddo aros yn y llain parcio oni bai fod y cerbyd yn arddangos mewn Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl dilys a bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan yr unigolyn y cyflwynwyd y bathodyn iddo.

RHAN VI

DIRYMIADAU

39. Trwy hyn di-rymir Gorchmynion Rheoli Traffig a luniwyd yn flaenorol i'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i ffyrdd yng Nghaernarfon a Bangor yn ardal Gwynedd cyn belled â'u bod yn berthnasol i waharddiadau a chyfyngiadau aros a Mannau Parcio ar y stryd.

40. Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd ar y 9fed dydd o Fawth Dwy Fil a Saith.